

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020, a'r newidiadau wedi'u harddangos

Paratowyd y ddogfen hon gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn Llywodraeth Cymru. Fe'i bwriedir at ddibenion eglurhaol yn unig er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n darllen Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i ddeall y newidiadau dilynol a wnaed i'r Rheoliadau hynny.

- Pan fydd testun yn cael ei **hepgor** gan y Rheoliadau diwygio, dangosir y testun ~~mewn testun coch gyda llinell trwyddo~~
- Pan **fewnosodir** testun gan y Rheoliadau diwygio, [tanlinellir y testun a'i ddangos mewn testun glas](#)
- Mae rhif sydd wedi'i ysgrifennu uwchben llinell, er enghraifft ^{1, 2, 3}, yn cyfeirio at y nodyn perthnasol yn y blwch sy'n dilyn rheoliad neu Atodlen sydd wedi'i diwygio.

Nid yw'r ddogfen hon yn fersiwn swyddogol o'r prif Reoliadau. Gellir dod o hyd i gopi o'r Rheoliadau hynny ar wefan legislation.gov.uk/cy/.

Daeth y prif Reoliadau i rym am 4.00pm ar 26 Mawrth 2020. Maent wedi'u diwygio fel a ganlyn:

<i>Rheoliadau</i>	<i>Dod i rym</i>
Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020	12.01am Ebrill 7fed, 2020
Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020	12.01am Ebrill 25ain 2020
Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020	4.00pm Mai 11eg 2020
Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020	Mai 22ain 2020
Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020	4.00pm Mehefin 1af 2020
Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020	12.01am Mehefin 22ain 2020
Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020	Gorffennaf 6ed 2020

Mae'r prif Reoliadau'n cynnwys Nodyn Esboniadol, ond nid yw'r nodyn hwnnw'n rhan o'r Rheoliadau eu hunain. Mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol wedi

This document has been prepared by the Welsh Government to assist readers of the legislation, but is not an official version of the Statutory Instrument or the Explanatory Note

diweddarau'r Nodyn Esboniadol, yn y ddogfen hon yn unig, er mwyn cynorthwyo ymhellach y rhai sy'n darllen y ddeddfwriaeth.

Dyddiad cyhoeddi: 3 Gorffennaf 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i achosion o heintio neu ledaenu heintiau neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn (y "prif Reoliadau") yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a achosir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r **prif Reoliadau** n'isodli Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cau Busnes) (Cymru) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020, a ddirymir gan **reoliad 2**, ac maent yn gwneud darpariaeth bellach. Diwygiwyd y **prif Reoliadau** gan:

- Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020,
- Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020,
- Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020,
- Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020,
- Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020,
- Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020, a
- Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020.

Mae'r **prif Rheoliadau** yn gosod cyfyngiadau ar unigolion, busnesau ac eraill. Yn unol â **rheoliad 3**, mae'r cyfyngiadau hyn yn gymwys ar gyfer "cyfnod yr argyfwng". Mae'r cyfnod hwn yn parhau hyd nes y ddirymir y ddarpariaeth sy'n gosod y cyfyngiad gan Weinidogion Cymru, neu 26 Medi 2020 (yn unol â rheoliad 15), pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Gall Gweinidogion Cymru hefyd ddiwygio'r cyfyngiadau, neu unrhyw un cyfyngiad (neu ran o gyfyngiad), drwy wneud diwygiadau pellach i'r **prif Reoliadau**. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru barhau i adolygu cymesuredd y cyfyngiadau a'r gofynion, a'r angen amdanynt, bob 21 diwrnod.

Mae **rheoliad 4** yn ei gwneud yn ofynnol cau mangre, a restrir yn **Rhan 1 o Atodlen 1** i'r **prif Rheoliadau**, lle y gwerthir bwyd a diod yn y fangre. Caniateir parhau i werthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre (ond rhaid gwneud hyn yn unol â rheoliad 6 (1)). Mae **rheoliad 4** hefyd yn gwahardd, yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig penodol, cynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth sydd wedi ei restru yn **Rhan 2** neu **Ran 3 o Atodlen 1**.

Mae **rheoliad 5** yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch llety gwyliau (gan gynnwys gwestai a thai byrddio). Mae'r **rheoliad hwn** yn darparu bod y gofyniad (yn **rheoliad 4**) i gau safleoedd gwyliau (safleoedd cartrefi symudol at ddefnydd gwyliau yn unig neu na ellir eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn) a safleoedd gweryslla, yn cynnwys rhwymedigaeth ar berchnogion y safleoedd hyn i wneud eu gorau glas i sicrhau fod pobl yn gadael yr eiddo. Mae **rheoliad 5** hefyd yn nodi eithriadau i'r gofyniad (yn **rheoliad 4**) i gau gwestai a mathau tebyg o lety ac mae'n darparu bod pob busnes llety gwyliau yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau ar-lein neu dros y ffôn neu yn y post.

Mae **rheoliad 6** yn gosod cyfyngiadau ar fusnesau neu wasanaethau eraill a restrir yn **Rhan 4 o Atodlen 1** ac yn eu caniatáu i aros yn agored yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir. Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y fusnes neu'r gwasanaeth gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau fod gofynion cadw pellter corfforol penodol wedi'u cynnal.

Mae **rheoliad 6A** yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am waith sy'n cael ei gyflawni yn unrhyw fan (pan fo gwaith o'r fath yn cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod argyfwng ac ar yr amod nad yw'n fangre i fusnes neu wasanaeth a restrir yn Atodlen 1) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter

This document has been prepared by the Welsh Government to assist readers of the legislation, but is not an official version of the Statutory Instrument or the Explanatory Note

o 2 fetr rhwng personau yn y fangre (oni bai bod y personau yn aelodau o'r un aelwyd neu'n ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr).

Mae **rheoliad 7** yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch addoldai, amlosgfeydd a chanolfannau cymunedol y mae'n rhaid iddynt gau yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol. Mae'r eithriadau yn cynnwys darparu gwasanaethau gwirfoddol hanfodol i bobl ddigartref neu bobl sy'n agored i niwed ac, ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol, i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae **rheoliad 7A** yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau mewn man roi sylw i ganllawiau gan Weinidogion Cymru ynghylch cymryd y mesurau hynny.

Mae **rheoliad 8** yn gosod cyfyngiadau ar gynulliadau. Mae'n darparu y caiff berson ond fod y tu fewn gydag unrhyw un ag eithrio aelod o'r teulu, ei ofalwr, neu unigolyn mae'n gofalu amdanynt, os oes ganddynt esgus rhesymol i wneud hynny (mae enghreifftiau o'r rhain wedi eu rhestru). Mae'r un rheol yn gymwys i gynulliadau y tu allan, ag eithrio fod ymgynull ag aelodau o un aelwyd arall wedi'i ganiatáu.

Mae **rheoliad 8A** yn darparu fod yn rhaid i berson sy'n gweithio neu'n darparu gwasanaeth gwirfoddol neu elusennol wneud hynny o'i gartref, os ydyw hi'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny.

Mae **rheoliad 9** yn gosod gofyniad ar awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau rhai llwybrau cyhoeddus a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r darpariaethau hyn ond mae rhaid i'r cyrff y gosodir dyletswydd arnynt i gau llwybrau troed a thir gadw'r angen i gau o dan ystyriaeth.

Mae **rheoliad 10** yn ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a osodir gan y prif Rheoliadau, sy'n cynnwys pŵer mynediad y darperir ar ei gyfer yn **rheoliad 11**. Mae **rheoliad 12** yn darparu bod person sydd, heb esgus rhesymol, yn mynd yn groes i'r gofynion (rhestredig) yn y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd. Gellir cosbi'r drosedd honno drwy ddirwy ddiderfyn. Mae **rheoliad 13** yn caniatáu i droseddau gael eu cosbi drwy hysbysiad cosb benodedig (ac mae swm y gosb yn dyblu yn yr ail hysbysiad cosb mae person yn ei dderbyn, ac ym mhob hysbysiad dilynol, hyd at uchafswm o £1920) ac mae **rheoliad 14** yn ymwneud ag erlyn troseddau o dan y Rheoliadau.

Mae **rheoliad 15** yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 26 Medi 2020, ond nid yw'r ffaith bod y Rheoliadau yn dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd camau a gymerir o dan y prif Rheoliadau cyn iddynt ddod i ben.

Mae'r Rheoliadau'n gosod nifer o gyfyngiadau ar unigolion, sy'n cyfyngu eu gallu i ymgysylltu ag unrhywun nad yw'n aelod o'r un aelwyd. Er hyn, gall aelodau o ddwy aelwyd gytuno i ffurfio un aelwyd estynedig. Bydd hyn yn golygu y gall unrhyw aelod o aelwyd sydd wedi cytuno ag aelwyd arall i wneud hyn, ymgysylltu ag aelodau'r aelwyd arall fel pe baent yn perthyn i'r un aelwyd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ynglŷn â chost a budd tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif 353 (Cy. 80)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau
Coronafeirws) (Cymru) 2020**

Gwnaed *am 2.45p.m. ar 26*
Mawrth 2020

Gosodwyd gerbron *27 Mawrth 2020*
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru

Yn dod i rym *am 4.00 p.m. ar 26*
Mawrth 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlu aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

1. Enwi, dod i rym, cymhwyso a dehongli

- (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a deuant i rym am 4.00p.m. ar 26 Mawrth 2020.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

- (2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.
- (3) Yn y Rheoliadau hyn—
- (a) ystyr “gofalwr” yw person sy'n darparu gofal ar gyfer y person a gynorthwyr pan—
 - (i) bo hawlogaeth gan y gofalwr i asesiad o dan adran 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(2),
 - (ii) bo'r gofal yn rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal cymunedol o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu
 - (iii) bo'r gofal wedi ei ddarparu gan ddarparwr gofal sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(3);
 - (b) ystyr “coronafeirws” yw coronafeirws syndrom anadlu aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);
 - [\(ba\) ystyr “athletwr elit” yw unigolyn sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru;](#)³
 - (c) ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
 - (d) mae “person sy'n gyfrifol am gynnal busnes” yn cynnwys perchennog a rheolwr y busnes hwnnw;
 - [\(da\) mae “mangre” yn cynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ac unrhyw dir;](#)¹
 - (e) mae “person hyglwyf” yn cynnwys—
 - (i) unrhyw berson sy'n 70 oed neu'n hŷn;
 - (ii) unrhyw berson o dan 70 oed sydd â chyflwr iechyd isorweddol, gan gynnwys y cyflyrau a restrir yn Atodlen 2, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt;
 - (iii) unrhyw berson sy'n feichiog.
 - (iv) [unrhyw blentyn;](#)
 - (v) [unrhyw berson sy'n oedolyn hyglwyf o fewn yr ystyr a roddir i “vulnerable adult” gan adran 60\(1\) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006\(4\).](#)²
- (4) [At ddibenion y diffiniad o “athletwr elit” ym mharagraff \(3\)—](#)
- (a) [nid yw unigolyn wedi ei ddynodi gan Gyngor Chwaraeon Cymru onid yw'r unigolyn wedi ei enwebu am ddynodiad gan gorff camp perthnasol a bod y Cyngor wedi derbyn yr enwebiad, a](#)
 - (b) [ystyr “corff camp perthnasol” yw corff llywodraethu cenedlaethol camp a gaiff enwebu athletwyr i gynrychioli—](#)
 - (i) [Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn y Gemau Olympaidd neu'r Gemau Paralympaidd, neu](#)
 - (ii) [Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad.](#)
- (5) [At ddibenion y Rheoliadau hyn—](#)
- (a) [mae person yn cymryd rhan cynulliad os yw'r person hwnnw yn ymgynnull ag un neu ragor o bersonau eraill yn yr un man er mwyn gwneud rhywbeth gyda'i gilydd;](#)
 - (b) [mae mangre o dan do os yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg \(Cymru\) 2007\(5\).](#)⁴

(2) 2014 dccc 4.

(3) 2016 dccc 2.

(4) 2006 p. 47. Diwygiwyd y diffiniad o “vulnerable adult” yn adran 60(1) gan adran 65(2)(b) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

(5) O.S. 2007/787 (Cy. 68).

- (6) [Os yw dwy aelwyd yn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd estynedig at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn \(ac eithrio ym mharagraffau \(7\) ac \(8\)\) at “aelwyd” i’w ddehongli fel petai’n cynnwys y ddwy aelwyd.](#)
- (7) [Er mwyn cytuno i gael eu trin fel un aelwyd estynedig rhaid i bob oedolyn ar y ddwy aelwyd gytuno.](#)
- (8) [Ond—](#)
- (a) [dim ond gydag un aelwyd arall y caiff aelwyd gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd estynedig, a](#)
- (b) [os yw’r ddwy aelwyd yn peidio â chytuno i gael eu trin fel un aelwyd estynedig, ni chaiff y naill aelwyd na’r llall gytuno i gael ei thrin fel un aelwyd o dan baragraff \(6\) gydag unrhyw aelwyd arall.⁵](#)

Nodiadau:

- | | |
|---|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1 | Mewnosodwyd gan reoliad 7(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20) |
| 2 | Mewnosodwyd gan reoliad 6(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20) |
| 3 | Mewnosodwyd gan reoliad 2(2)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20) |
| 4 | Mewnosodwyd gan reoliad 2(2)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20) |
| 5 | Mewnosodwyd gan reoliad 2(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20) |

2. Dirymu

- (1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cau Busnes) (Cymru) 2020(6) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020(7) wedi eu dirymu.
- (2) Er gwaethaf dirymu’r Rheoliadau hynny, maent yn parhau mewn grym mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnwyd oddi tanynt cyn y daeth y Rheoliadau hyn i rym.

3. Cyfnod yr argyfwng ac adolygu’r angen am gyfyngiadau

- (1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae “cyfnod yr argyfwng”—
- (a) yn dechrau pan ddaw’r Rheoliadau hyn i rym, a
- (b) yn gorffen mewn perthynas â gofyniad neu gyfyngiad a osodir gan y Rheoliadau hyn ar y ~~diwrnod ac ar yr adeg a bennir mewn cyfarwyddyd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru sy’n terfynu’r gofyniad neu’r cyfyngiad (gweler paragraffau (3) a (4))~~ [cynharaf o’r canlynol—](#)
- (i) [dirymu’r ddarpariaeth sy’n gosod y gofyniad neu’r cyfyngiad, neu](#)
- (ii) [pan ddaw’r Rheoliadau hyn i ben o dan reoliad 15.⁵](#)
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu’r angen am gyfyngiadau a gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, [a pha un a yw’r cyfyngiadau a’r gofynion hynny yn gymesur â’r hyn y mae](#)

(6) O.S. 2020/326 (Cy. 74).

(7) O.S. 2020/334 (Cy. 76).

Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt,³ bob 21 o ddiwrnodau, gyda'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal erbyn ~~15~~16¹ Ebrill 2020.

~~(3) Cyn gynted ag y bo Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes angen gofyniad neu gyfyngiad a osodir gan y Rheoliadau hyn mwyach i atal, i ddiogelu rhag, i reoli neu i ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint yng Nghymru â'r coronafeirws, rhaid i Weimidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd sy'n terfynu'r gofyniad neu'r cyfyngiad.~~

~~(4) [Caiff cyfarwyddyd a gyhoeddir o dan y rheoliad hwn—~~

~~(a) terfynu unrhyw un neu ragor o ofynion neu gyfyngiadau;~~

~~(b) terfynu gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas â busnes neu wasanaeth penodedig neu ddisgrifiad penodedig o fusnes neu wasanaeth.~~

~~(4) Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny gan roi sylw i'r angen i atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint yng Nghymru â'r coronafeirws, gyhoeddi cyfarwyddyd sy'n terfynu gofyniad neu gyfyngiad mewn perthynas ag—~~

~~(a) busnes neu wasanaeth penodedig neu ddisgrifiad penodedig o fusnes neu wasanaeth;~~

~~(b) disgrifiad penodedig o bersonau;~~

~~(c) rhan benodedig o Gymru.~~

~~(4A) Nid yw terfynu cyfyngiad neu ofyniad drwy gyfarwyddyd yn effeithio—~~

~~(a) ar unrhyw gosbedigaeth yr eir iddi mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd a gyflawnir o dan y Rheoliadau hyn cyn i'r cyfyngiad neu'r gofyniad gael ei derfynu,~~

~~(b) ar unrhyw hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir o dan reoliad 13 mewn perthynas ag ymddygiad sy'n digwydd cyn i'r cyfyngiad neu'r gofyniad gael ei derfynu, neu~~

~~(c) ar unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi mewn cysylltiad—~~

~~(i) ag unrhyw drosedd neu ymddygiad o'r fath, neu~~

~~(ii) ag unrhyw drosedd honedig o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni cyn i'r cyfyngiad neu'r gofyniad gael ei derfynu,~~

~~a chaniateir cychwyn, parhau neu orfodi unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi o'r fath, a chaniateir gosod unrhyw gosbedigaeth neu gosb o'r fath, fel pe na bai'r terfyniad wedi digwydd.]²~~

~~(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "penodedig" yw wedi ei bennu mewn cyfarwyddyd.⁴~~

Nodiadau:

- 1 Amnewidiwyd gan reoliad 7(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 2 Amnewidiwyd paragraff 4 a mewnosodwyd paragraff 4A gan reoliad 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 3 Mewnosodwyd gan reoliad 2(2)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (11/05/20)
- 4 Hepgorwyd gan reoliad 2(2)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (11/05/20)
- 5 Amnewidiwyd gan reoliad 2(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (22/05/20)

4. Gofyniad i gau mangreoedd a busnesau yn ystod cyfnod yr argyfwng

- (1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1, yn ystod cyfnod yr argyfwng—
- (a) cau unrhyw fangre, neu ran o'r fangre, lle y gwerthir bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre honno;
 - (b) peidio â gwerthu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed yn ei fangre (ond os yw'r busnes yn gwerthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre, caiff barhau i wneud hynny yn ddarostyngedig i reoliad ~~6(1)~~[6\(2\)](#)⁶.
- (2) At ddibenion paragraff (1), nid yw bwyd neu ddiod a werthir gan westy neu lety arall fel rhan o wasanaeth ystafell i'w drin neu i'w thrin fel pe bai'n cael ei werthu neu ei gwerthu i'w fwyta neu i'w hyfed yn ei fangre.
- (3) At ddibenion paragraff (1), mae ardal sy'n gyfagos i fangre'r busnes lle y mae seddau yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid y busnes (pa un ai gan y busnes ai peidio) i'w thrin fel rhan o fangre'r busnes hwnnw.
- (4) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir yn Rhan 2 neu 3 o Atodlen 1, yn ystod cyfnod yr argyfwng, beidio â chynnal y busnes hwnnw neu ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.
- (5) Ond nid yw paragraff (4) yn atal y defnydd—
- (a) o fangre a ddefnyddir ar gyfer y busnesau neu'r gwasanaethau a restrir ym mharagraffau 5, 6, 7, 8, 9, 10 neu 18 o Ran 2 [o Atodlen 1](#)² i ddarlledu (heb gynulleidfa) berfformiad (boed dros y rhyngwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu);
 - ~~(b) o unrhyw fangre addas a ddefnyddir ar gyfer y busnesau neu'r gwasanaethau a restrir yn Rhan 2 neu 3 o'r Atodlen honno i ddarparu, ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol, wasanaethau cyhoeddus brys (gan gynnwys darparu bwyd neu gymorth arall ar gyfer y digartref neu bersonau hyglwyf, sesiynau rhoi gwaed neu gymorth mewn argyfwng);~~
 - (b) [o fangre a ddefnyddir ar gyfer y busnesau neu'r gwasanaethau a restrir yn Rhan 2 neu 3 o Atodlen 1 at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano](#);³
 - [\(ba\) o fangre ar gyfer hyfforddi athletwyr elît, gan gynnwys canolfannau sglefrio, pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd o dan do, campfeydd, canolfannau hamdden o dan do a chyfleusterau chwaraeon eraill \(boed o dan do neu yn yr awyr agored\)](#);⁷
 - (c) o fangre a ddefnyddir fel amgueddfa ~~oriel neu lyfrgell~~ [neu oriel](#)⁵, neu a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau archifau, ar gyfer darparu gwybodaeth neu wasanaethau eraill—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar-lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys ~~arehebiau~~⁴ drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post.

(5A) Mae paragraff (5B) yn gymwys—

- (a) [i fangre a ddefnyddir i gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a grybwyllir yn is-baragraff \(1\)\(a\), \(b\) neu \(c\) o baragraff 2 o Atodlen 1, neu](#)
- (b) [pan fo mangre a ddefnyddir i gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir yn Rhan 2 neu 3 o Atodlen 1 wedi ei defnyddio at ddiben a grybwyllir ym mharagraff \(5\).](#)

(5B) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes neu ddarparu'r gwasanaeth, yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

- (a) [y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre \(ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr\),](#)
- (b) [nad yw personau ond yn cael mynediad i'r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac](#)

(c) [y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre \(ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr\).](#)¹

- (6) Os yw busnes a restrir yn Atodlen 1 (“busnes A”) yn ffurfio rhan o fusnes mwy (“busnes B”), mae'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn cydymffurfio â'r gofyniad ym mharagraff (1) neu (4) os yw'n cau busnes A i lawr.

Nodiadau:

- | | |
|---|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1 | Mewnosodwyd gan reoliad 3(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20) |
| 2 | Mewnosodwyd gan reoliad 6(3)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20) |
| 3 | Amnewidiwyd gan reoliad 6(3)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20) |
| 4 | Hepgorwyd gan reoliad 6(3)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20) |
| 5 | Amnewidiwyd gan reoliad 2(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (11/05/20) |
| 6 | Amnewidiwyd gan reoliad 2(3)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20) |
| 7 | Mewnosodwyd gan reoliad 2(3)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20) |

5. Gofyniad i gau mangreoedd a busnesau yn ystod cyfnod yr argyfwng: darpariaeth benodol ynghylch llety gwyliau etc.

- (1) I'r graddau y mae rheoliad 4(4) yn gymwys i safle gwyliau neu safle gwerysilla (yn rhinwedd ei restru yn Rhan 3 o Atodlen 1), mae'r rhwymedigaeth ar y person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes (“P”) yn cynnwys rhwymedigaeth ar P i wneud ei orau glas i sicrhau fod unrhyw berson sy'n aros ar y safle pan yw'r busnes wedi peidio â chael ei gynnal yn gadael y fangre.
- (2) Ond nid yw'r rhwymedigaeth ym mharagraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson sy'n defnyddio cartref symudol ar safle gwyliau i'w fyw ynddo gan bobl o dan gytundeb y mae Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013⁽⁸⁾ yn gymwys iddo.

~~(3) I'r graddau y mae rheoliad 4(4) yn gymwys i unrhyw fusnes arall a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1, mae'r rhwymedigaeth ar y person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes yn gymwys yn ddarostyngedig i'r angen—~~

~~(a) i ddarparu llety i bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym ac—~~

~~(i) —na allant ddychwelyd i'w prif breswylfa, neu~~

~~(ii) —sy'n defnyddio'r llety fel eu prif breswylfa;~~

~~(b) i gynnal y busnes, neu i gadw unrhyw fangre a ddefnyddir at y busnes yn agored, at unrhyw ddiben ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.~~

[\(3\) I'r graddau y mae rheoliad 4\(4\) yn gymwys i unrhyw fusnes arall a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1, mae'r rhwymedigaeth ar y person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes yn gymwys yn ddarostyngedig i'r angen i ddarparu llety i unrhyw bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym ac—](#)

⁽⁸⁾ 2013 decc 6 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (decc 7).

(a) na allant ddychwelyd i'w prif breswylfa, neu

(b) sy'n defnyddio'r llety fel eu prif breswylfa.

(3A) I'r graddau y mae rheoliad 4(4) yn gymwys i fusnes a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1, mae'r rhwymedigaeth ar y person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes yn gymwys yn ddarostyngedig i'r angen—

~~(a) [i gynnal y busnes, neu i gadw unrhyw fangre a ddefnyddir yn y busnes ar agor, at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano;]³~~

(b) i gynnal y busnes drwy ddarparu gwybodaeth neu wasanaethau eraill—

(i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar-lein,

(ii) dros y ffôn, gan gynnwys ymholiadau drwy neges destun, neu

(iii) drwy'r post.¹

(3B) Mae paragraff (3C) yn gymwys pan fo mangre a ddefnyddir ar gyfer busnes a restrir yn Rhan 3 o Atodlen 1 wedi ei defnyddio—

(a) i ddarparu llety yn unol â pharagraff (3), neu

(b) i gynnal y busnes yn unol â pharagraff (3A).

(3C) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes, yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr).

(b) nad yw personau ond yn cael mynediad i'r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac

(c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr).²

(4) Yn y rheoliad hwn ac yn Rhan 3 o'r Atodlen, ystyr "safle gwyliau" yw unrhyw dir yng Nghymru lle y gosodir cartref symudol neu garafán at ddibenion byw gan bobl (gan gynnwys unrhyw dir yng Nghymru a ddefnyddir ar y cyd â'r tir hwnnw), y mae'r caniatâd cynllunio perthnasol neu'r drwydded safle ar gyfer y tir mewn cysylltiad ag ef—

(a) wedi ei fynegi i'w roi neu wedi ei mynegi i'w rhoi at ddefnydd gwyliau yn unig, neu

(b) yn ei gwneud yn ofynnol bod adegau o'r flwyddyn pan na chaniateir gosod unrhyw gartref symudol neu garafán ar y safle i bobl fyw ynddo neu ynddi.

(5) At ddibenion penderfynu pa un a yw safle yn safle gwyliau ai peidio, mae unrhyw ddarpariaeth yn y caniatâd cynllunio perthnasol neu yn y drwydded safle sy'n caniatáu gosod cartref symudol ar y tir i bobl fyw ynddo drwy gydol y flwyddyn i'w hanwybyddu os yw wedi ei hawdurdodi i'r canlynol feddiannu'r cartref symudol—

(a) y person sy'n berchennog y safle, neu

(b) person sydd wedi ei gyflogi gan y person hwnnw ond nad yw'n meddiannu'r cartref symudol o dan gytundeb y mae Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(9) yn gymwys iddo.

Nodiadau:

¹ Amnewidiwyd gan reoliad 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)

(9) 2013 decc 6 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (decc 7).

2	Mewnosodwyd gan reoliad 3(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
3	Hepgorwyd gan reoliad 6(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)

6. Cyfyngiad cyffredinol ar siopau a busnesau a gwasanaethau penodol eraill

(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

- (a) i berson (“P”) sy’n gyfrifol am gynnal busnes, neu ddarparu gwasanaeth, a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1, a
- (b) mewn cysylltiad ag unrhyw fangre lle y cynhelir y busnes neu lle y darperir y gwasanaeth.

(2) Rhaid i P gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

- (a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o’r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a’r person sy’n cael cymorth gan y gofalwr),
- (b) nad yw personau ond yn cael mynediad i’r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac
- (c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy’n aros i fynd i’r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o’r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a’r person sy’n cael cymorth gan y gofalwr).¹

Nodiadau:

- ¹ Amnewidiwyd gan reoliad 2(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
Nodyn: Er gywodaeth mae copi o reoliad 6 gwreiddiol (wedi’i ddiwygio) wedi’i ddarparu yn Atodiad 1 i’r ddogfen hon.

6A. Cyfyngiad cyffredinol ar fannau gwaith

(1) Rhaid i berson sy’n gyfrifol am waith a gyflawnir mewn mangre lle mae person yn gweithio, pan yw gwaith o’r fath yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o’r un aelwyd, neu ofalwr a’r person a gynorthwyir gan y gofalwr).

~~(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i fangre a ddefnyddir i gynnal busnes, neu ddarparu gwasanaeth, a restrir yn Atodlen 1.¹~~

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i fangre—

- (a) a ddefnyddir i gynnal busnes, neu ddarparu gwasanaeth, a restrir yn Atodlen 1, ~~neu~~
- ~~(b) y mae rheoliad 6(2A) yn gymwys iddi.^{3 2}~~

Nodiadau:

- ¹ Mewnosodwyd rheoliad 6A(1) a (2) gan reoliad 3 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- ² Amnewidiwyd rheoliad 6A(2) gan reoliad 3(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- ³ Hepgorwyd gan reoliad 2(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)

7. Cyfyngiadau ar fannau addoli, amlogfeydd, mynewtydd⁶ a chanolfannau cymunedol

(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am fan addoli sicrhau, yn ystod cyfnod yr argyfwng, fod y man addoli ar gau, ac eithrio at ddefnydd a ganiateir gan baragraff (2).

(2) Os ~~cymrir~~ cymerir¹¹ pob ~~eam~~ mesur⁷ rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng pob person yn y man addoli (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr)¹, caniateir defnyddio'r man—

~~[(aa) i weinyddu priodas neu ffurfio partneriaeth sifil, pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwech angheuol ac na ddisgwyllir iddo wella.]¹⁷~~

(za) i weinyddu priodas neu ffurfio partneriaeth sifil.¹⁹

(a) ar gyfer angladdau,

(aa) ar gyfer gweddio gan—

(i) unigolyn,

(ii) aelodau o'r un aelwyd, neu

(iii) unigolyn a gofalwr yr unigolyn, nad yw'n rhan o gydaddoli.²⁰

~~(b) i ddarlledu (heb gynulleidfa) weithred o addoli neu angladd (boed dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu), neu~~

(b) i ddarlledu (boed dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu)—

(i) gweithred o addoli (heb gynulleidfa);

(ii) gweinyddu priodas neu ffurfio partneriaeth sifil [a ganiateir gan is baragraff (aa)]²¹;

(iii) angladd, neu¹⁸

(c) i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol hanfodol neu, ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol, wasanaethau cyhoeddus ~~brys (gan gynnwys darparu banciau bwyd neu gymorth arall ar gyfer y digartref neu bobl hygllwyf, sesiynau rhoi gwaed neu gymorth mewn argyfwng).~~²²

(3) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am amlogfa sicrhau, yn ystod cyfnod yr argyfwng, fod yr amlogfa ar gau i aelodau'r cyhoedd, ac eithrio ar gyfer at y defnydd a ganiateir gan baragraff (4).

(4) Os ~~cymrir~~ cymerir¹² pob ~~eam~~ mesur⁸ rhesymol ~~wedi ei gymryd~~¹⁴ i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng pob person yn yr amlogfa (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr)², caiff yr amlogfa agor i aelodau'r cyhoedd am angladdau neu gladdu (a darlledu angladd neu gladdu boed dros y rhyngrwyd neu fel arall).

(4ZA) Nid yw paragraff (3) yn gymwys i'r tir o amgylch amlogfa, gan gynnwys unrhyw gladdfa neu ardd goffa.¹⁵

(4A) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am fynwent gymryd pob [eam mesur]⁹ rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng pob person mewn claddedigaeth sy'n digwydd yn y fynwent yn ystod cyfnod yr argyfwng (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr).³

(5) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am ganolfan gymunedol sicrhau, yn ystod cyfnod yr argyfwng, fod y ganolfan gymunedol ar gau ac eithrio—

(a) pan fo'n cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol hanfodol neu, ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol, wasanaethau cyhoeddus ~~brys (gan gynnwys darparu banciau bwyd neu gymorth arall ar gyfer y digartref neu bersonau hygllwyf, sesiynau rhoi gwaed neu gymorth mewn argyfwng)~~²³, a

- (b) os ~~cymr~~ ~~cymerir~~¹³ pob ~~eam~~ ~~mesur~~¹⁰ rhesymol ~~wedi ei gymryd~~¹⁶ i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng pob person yn y fangre ([ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr](#))⁴ tra darperir y gwasanaethau hynny.

(6) At ddiben y rheoliad hwn—

- (a) [mae “claddu” yn cynnwys rhoi lludw person marw yn y ddaear;](#)
- (b) [mae “mynwent” yn cynnwys claddfa ac unrhyw fan arall sy'n cael ei ddefnyddio i gladdu'r meirw.](#)⁵

Nodiadau:

- 1 Mewnosodwyd gan reoliad 4(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 2 Mewnosodwyd gan reoliad 4(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 3 Mewnosodwyd gan reoliad 4(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 4 Mewnosodwyd gan reoliad 4(d) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 5 Mewnosodwyd gan reoliad 4(e) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 6 Mewnosodwyd gan reoliad 4(f) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 7 Amnewidiwyd gan rheoliad 6(6)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 8 Amnewidiwyd gan rheoliad 6(6)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 9 Amnewidiwyd gan rheoliad 6(6)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 10 Amnewidiwyd gan rheoliad 6(6)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 11 Amnewidiwyd gan rheoliad 6(6)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 12 Amnewidiwyd gan rheoliad 6(6)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 13 Amnewidiwyd gan rheoliad 6(6)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 14 Hefgorwyd gan reoliad 6(6)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 15 Mewnosodwyd gan reoliad 6(6)(d) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 16 Hefgorwyd gan reoliad 6(6)(e) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- 17 Mewnosodwyd gan reoliad 2(2)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)
- 18 Amnewidiwyd gan reoliad 2(2)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)
- 19 Amnewidiwyd gan reoliad 2(6)(a)(i) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)

20	Mewnosodwyd gan reoliad 2(6)(a)(ii) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
21	Hepgorwyd gan reoliad 2(6)(a)(iii) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
22	Hepgorwyd gan reoliad 2(6)(a)(iv) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
23	Hepgorwyd gan reoliad 2(6)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)

7A. Canllawiau ar gynnal pellter o 2 fetr rhwng personau

- (1) Rhaid i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad neu gyfyngiad yn—
- (a) rheoliad 4(1) fel y mae'n gymwys i ffreuturau yn y gweithle,
[(aa)rheoliad 4(5B),
(ab)rheoliad 5(3C),]²
[~~(b) rheoliad 6(1) [neu (2A)]~~];³
 - (b) rheoliad 6(2),]⁵
 - (c) rheoliad 6A(1), neu
 - (d) rheoliad 7(1), (3), (4A) neu (5),
- roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch y [e~~amau~~ mesurau]⁴
rhesymol sydd i'w cymryd i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau.
- (2) O ran Gweinidogion Cymru—
- (a) cânt ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1), a
 - (b) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau (ac unrhyw ddiwygiadau).
- (3) Caiff canllawiau o dan y rheoliad hwn gynnwys (drwy gyfeirio neu drosi) ganllawiau, codau ymarfer neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan berson arall (er enghraifft, cymdeithas fasnach, corff sy'n cynrychioli aelodau o ddiwydiant neu undeb llafur).¹

Notes:

- ¹ Mewnosodwyd gan reoliad 5 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- ² Mewnosodwyd gan reoliad 6(7)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- ³ Mewnosodwyd gan reoliad 6(7)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- ⁴ Amnewidiwyd gan reoliad 6(7)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhan 2) 2020 (25/04/20)
- ⁵ Amnewidiwyd gan reoliad 2(7) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)

8. Cyfyngiadau ar symud a bod o dan do yn ystod cyfnod yr argyfwng

- (1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol—
- (a) ymgynnull yn yr awyr agored gydag unrhyw berson arall oni bai am—

- (i) [aelodau o'i aelwyd neu aelodau o ddim mwy nag un aelwyd arall,](#)
 - (ii) [gofalwr iddo, neu](#)
 - (iii) [person y mae'n darparu gofal iddo;](#)
 - (b) [ymgynnull mewn mangre o dan do gydag unrhyw berson arall oni bai am—](#)
 - (i) [aelodau o'i aelwyd,](#)
 - (ii) [gofalwr iddo, neu](#)
 - (iii) [person y mae'n darparu gofal iddo.](#)
- (2) [Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol—](#)
 - (a) [cael cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 42 o Atodlen 1 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;](#)
 - (b) [darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7\(3B\) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;](#)
 - (c) [darparu neu gael cynhorthwy brys;](#)
 - (d) [rhoi gwaed;](#)
 - (e) [gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;](#)
 - (f) [pan fo'r person yn athletwr elit, hyfforddi neu gystadlu;](#)
 - (g) [mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil—](#)
 - (i) [fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,](#)
 - (ii) [os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil, neu](#)
 - (iii) [fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil.](#)
 - (h) [mynd i angladd—](#)
 - (i) [fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,](#)
 - (ii) [os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu](#)
 - (iii) [fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;](#)
 - (i) [cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;](#)
 - (j) [cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol neu gael y gwasanaethau hynny, gan gynnwys —](#)
 - (i) [gofal plant neu wasanaethau addysgol;](#)
 - (ii) [gwasanaethau cymdeithasol;](#)
 - (iii) [gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;](#)
 - (iv) [gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr \(megis dioddefwyr trosedd neu drais domestig\);](#)
 - (k) [mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;](#)
 - (l) [symud cartref;](#)
 - (m) [paratoi eiddo preswyl i bersonau symud i mewn;](#)

- (n) ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl nad yw wedi ei feddiannu—
 - (i) ymweld ag asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr neu gartrefi arddangos;
 - (ii) gweld eiddo o'r fath;
 - (o) cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan atyniadau awyr agored;
 - (p) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.
- (3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ddigartref.
- (4) At ddibenion paragraff (2)(q), nid yw eiddo wedi ei feddiannu os nad oes unrhyw berson yn meddiannu'r eiddo fel preswylfa.¹

Nodiadau:

- ¹ Amnewidiwyd gan reoliad 2(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)
- Nodyn: Amnewidiwyd reoliad 8 ddwy waith, yn gyntaf gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 ac yn ail gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020. Gweler copi o rheoliad 8 cyn yr amnewidiadau yma yn Atodiad 2 a 3.

8A. Gofyniad i barhau i weithio gartref pan fo'n ymarferol

- (1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) ni chaiff unrhyw berson adael y man lle y mae'n byw, neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw, at ddibenion gwaith neu i ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol.
- (2) Yr amgylchiadau yw ei bod yn rhesymol ymarferol i'r person weithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol o'r man lle y mae'n byw.
- (3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae'r man lle y mae person yn byw yn cynnwys y fangre lle y mae'n byw ynghyd ag unrhyw ardd, iard, tramwyfa, gris, garej, tŷ allan neu unrhyw atodyn i fangre o'r fath.¹

Nodiadau:

- ¹ Mewnosodwyd gan reoliad 2(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)

~~8B. Cyfyngiadau ar ymgynnull â phersonau eraill~~

~~Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff unrhyw berson gymryd rhan mewn cynulliad yn yr awyr agored ae eithrio—~~

- ~~(a) pan fo'r personau sy'n ymgynnull yn aelodau o ddim mwy na dwy aelwyd,~~
- ~~(b) pan fo'r cynulliad yn hanfodol at ddibenion gwaith,~~
- ~~(c) i fynd i angladd, [priodas neu seremoni ffurfio partneriaeth sifil]², neu~~
- ~~(d) pan fo'r cynulliad yn angenrheidiol—~~
 - ~~(i) i hwyluso symud tŷ,~~
 - ~~(ia) er mwyn i athletwyr elît hyfforddi neu gystadlu;³~~

~~(ii) i ddarparu gofal neu gynhorthwy i berson hygllwyf, yn cynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr “relevant personal care” ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hygllwyf 2006,~~

~~(iii) i ddarparu cynhorthwy brys i unrhyw berson, neu~~

~~(iv) i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol, neu gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol.¹⁴~~

Nodiadau:

- | | |
|---|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1 | Mewnosodwyd gan reoliad 2(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20) |
| 2 | Mewnosodwyd gan reoliad 2(9)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20) |
| 3 | Mewnosodwyd gan reoliad 2(9)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20) |
| 4 | Hepgorwyd reoliad 8B gan reoliad 2(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20) |

9. Gofyniad i gau llwybrau cyhoeddus a thir penodol a pheidio â mynd iddynt yn ystod cyfnod yr argyfwng

- (1) Pan fo paragraff (2) yn gymwys i lwybr cyhoeddus neu dir mynediad yn ardal awdurdod perthnasol, rhaid i'r awdurdod perthnasol, yn ystod cyfnod yr argyfwng—
 - (a) cau'r llwybr cyhoeddus neu'r tir mynediad, a
 - (b) ei gadw ar gau tan y cynharaf o'r canlynol—
 - (i) diwedd cyfnod yr argyfwng, neu
 - (ii) yr adeg pan yw'r awdurdod yn ystyried nad yw'r cau yn angenrheidiol i atal, i ddiogelu rhag, i reoli neu i ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint yn ei ardal â'r coronafeirws.
- (2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i'r llwybrau cyhoeddus a'r tir mynediad yn ardal awdurdod perthnasol y mae'n ystyried —
 - (a) eu bod yn debygol o ddenu niferoedd mawr o bobl yn ymgynnull neu'n dod yn agos i'w gilydd, neu
 - (b) bod eu defnydd fel arall yn peri risg uchel i fynychder a lledaeniad haint yn ei ardal â'r coronafeirws.
- (3) Pan fo llwybr cyhoeddus wedi ei gau o dan reoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad)(Cymru) 2020(10), mae'r llwybr i'w drin fel pe bai wedi ei gau o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn.
- (4) Ni chaiff unrhyw un ddefnyddio llwybr troed neu dir mynediad sydd ar gau yn rhinwedd paragraff (1) oni bai ei fod wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod perthnasol.
- (5) Rhaid i'r awdurdod perthnasol—
 - (a) cyhoeddi rhestr o lwybrau cyhoeddus neu dir mynediad sydd ar gau yn ei ardal ar wefan;
 - (b) codi a chynnal hysbysiadau mewn manau amlwg sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd bod llwybr cyhoeddus neu dir mynediad ar gau.

- (6) At ddibenion y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at lwybr cyhoeddus neu dir mynediad yn cynnwys rhannau o lwybr cyhoeddus neu dir mynediad.
- (7) Yn y rheoliad hwn—
- (a) ystyr “awdurdod perthnasol” yw—
 - (i) awdurdod lleol,
 - (ii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru,
 - (iii) Cyfoeth Naturiol Cymru, neu
 - (iv) yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol;
 - (b) ystyr “llwybr cyhoeddus” yw llwybr troed, llwybr ceffylau, cilffordd, cilffordd gyfyngedig neu lwybr beiciau ac
 - (i) mae i “llwybr troed”, “llwybr ceffylau” a “llwybr beiciau” yr un ystyr â “footpath”, “bridleway” a “cycle track” yn adran 329(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980(11);
 - (ii) ystyr “cilffordd” yw cilffordd sydd ar agor i bob traffig o fewn yr ystyr a roddir i “bridleway open to all traffic” gan adran 66(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(12);
 - (iii) mae i “cilffordd gyfyngedig” yr ystyr a roddir i “restricted byway” gan adran 48(4) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(13);
 - (c) mae “tir mynediad” yn cynnwys tir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo yn rhinwedd ei berchnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond fel arall mae iddo yr un ystyr ag “access land” yn adran 1(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(14).

10. Gorfodi

- (1) Caiff person perthnasol roi hysbysiad gwahardd i berson ~~os yw'r person perthnasol yn credu'n rhesymol~~³ —
- (a) [os oes gan y person perthnasol sail resymol dros amau](#)⁴ bod y person yn torri gofyniad yn rheoliad 4, [5\(3C\)](#),⁵ 6, [6A](#)¹ neu 7, a
 - (b) [os yw'r person perthnasol yn ystyried](#)⁶ ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur rhoi'r hysbysiad gwahardd at ddiben atal y person hwnnw rhag parhau i dorri'r gofyniad.
- ~~(2) Pan fo person perthnasol yn [ystyried gan berson perthnasol sail resymol dros amau]⁷ bod person (“P”) yn [torri'r gofyniad yn rheoliad 8(1) torri gofyniad yn rheoliad 8(1) neu 8A]¹⁵, caiff y person perthnasol—~~
- ~~(a) cyfarwyddo P i ddychwelyd i'r man lle y mae'n byw [(os nad yw P yno eisoes)]¹⁶;~~
 - ~~(b) mynd â P i'r man hwnnw [(os nad yw P yno eisoes)]¹⁷.~~
- ~~(3) [Caiff person perthnasol sy'n arfer y pŵer ym mharagraff (2) —~~
- ~~(a) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r person perthnasol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol;~~
 - ~~(b) defnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer hwnnw.~~
- ~~(3) Caiff person perthnasol —~~

(11) 1980 p. 66. Diwygiwyd adran 329 gan adran 1 o Ddeddf Llwybrau Beicio 1984 (p. 38) a pharagraff 21 o Atodlen 3 i Ddeddf Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Canlyniadol) 1988 (p. 54).

(12) 1981 p. 69.

(13) 2000 p. 37.

(14) 2000 p. 37. Diwygiwyd adran 1(1) gan adran 302(2)(a) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23)

- ~~(a) wrth arfer y pŵer ym mharagraff (2)(a) neu (b), gyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r person perthnasol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol;~~
- ~~(b) defnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer ym mharagraff (2)(b).¹⁸~~
- ~~(4) Pan fo P yn blentyn yng nghwmni unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros y plentyn—~~
- ~~(a) caiff y person perthnasol gyfarwyddo U i fynd â P i'r man lle y mae P yn byw, a~~
- ~~(b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y person perthnasol i P.²¹~~
- (5) At ~~ddiben~~ paragraff (4) ddibenion y rheoliad hwn⁹, ~~mae gan U gyfrifoldeb am blentyn os oes gan U~~ mae gan unigolyn gyfrifoldeb am blentyn os oes gan yr unigolyn²²—
- (a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu
- (b) cyfrifoldeb rhiant am y plentyn (o fewn ystyr Deddf Plant 1989).
- ~~(6) Ni chaiff person ond arfer y pŵer ym mharagraff (2) neu (4) os yw'r person perthnasol yn ystyried ei fod yn ddull angenrheidiol a chymesur o sicrhau cydymffurfedd â'r gofyniad.²³~~
- (7) Pan fo ~~person perthnasol yn ystyried~~ gan berson perthnasol sail resymol dros amau¹⁰ bod ~~tri neu rager o bobl pobol¹⁷~~ yn ymgynnull yn groes i reoliad ~~[8(5) 8B]¹⁹ 8(1)²⁴~~, caiff y person perthnasol—
- (a) cyfarwyddo'r cynulliad i wasgaru;
- (b) cyfarwyddo unrhyw berson yn y cynulliad i ddychwelyd i'r man lle y mae'n byw;
- (c) mynd ag unrhyw berson yn y cynulliad i'r man lle y mae'n byw.
- ~~(8) Mae paragraffau (3) i (6) o'r rheoliad hwn yn gymwys i arfer y pŵer ym mharagraff (7), fel y maent yn gymwys i arfer pŵer ym mharagraff (2).~~
- (8) Caiff person perthnasol sy'n arfer y pŵer ym mharagraff (7)—
- (a) i gyfarwyddo cynulliad i wasgaru, neu
- (b) i fynd â pherson i'r man lle y mae'n byw,
- ddefnyddio grym rhesymol, os yw'n angenrheidiol, wrth arfer y pŵer.
- (8A) Pan fo gan berson perthnasol sail resymol dros amau bod person ("P") mewn cynulliad yn groes i reoliad [8(5) 8B]²⁰ 8(1)²⁵ a'i fod yn blentyn gydag unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros P—
- (a) caiff y person perthnasol gyfarwyddo U i fynd â P i'r man lle y mae P yn byw, a
- (b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y person perthnasol i P.
- (8B) Ni chaiff person perthnasol arfer pŵer ym mharagraff (7) neu (8A) ond os yw'r person perthnasol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.¹¹
- (9) ~~Caiff person perthnasol~~ Os yw person perthnasol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddibenion atal, neu derfynu, torri rheoliad 9(4), caiff y person perthnasol¹² symud unigolyn o lwybr cyhoeddus neu dir mynediad (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 9(7)) sydd ar gau (neu sy'n cael ei gau) yn rhinwedd rheoliad 9(1), a chaiff defnyddio grym rhesymol, os yw'n angenrheidiol¹³ i wneud hynny.
- (10) Caiff person perthnasol gymryd unrhyw gamau gweithredu eraill y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur i hwyluso arfer pŵer a roddir ar y person gan y rheoliad hwn neu reoliad 11 (gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth o ran a yw dwy aelwyd wedi ymrwymo i gytundeb yn unol â rheoliad 1(6))²⁶.
- (11) At ddibenion y rheoliad hwn a rheoliadau 11, 12 ac 13, ystyr "person perthnasol" yw—
- (a) cwnstabl,
- (b) swyddog cymorth cymunedol yr heddlu,
- (c) person sydd wedi ei ddynodi gan—

- (i) Weinidogion Cymru,
- (ii) awdurdod lleol
- (iii) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru, neu
- (iv) Cyfoeth Naturiol Cymru,

at ddibenion y rheoliad hwn a rheoliadau 11, 12 ac 13 (ond gweler paragraffau (12) ac (13)).

(12) Ni chaiff person a ddynodir gan awdurdod lleol arfer swyddogaethau person perthnasol ond mewn perthynas â thoriad (neu doriad honedig) gofyniad yn rheoliad 4, [5\(3C\)](#),¹⁴ 6, [6A](#),² 7 neu 9(4) yn unig.

(13) Ni chaiff person a ddynodir gan awdurdod Parc Cenedlaethol neu Cyfoeth Naturiol Cymru arfer swyddogaethau person perthnasol ond mewn perthynas â thorri'r gofyniad yn rheoliad 9(4) (neu doriad honedig ohono).

(14) Yn y rheoliad hwn a rheoliadau 11 a 12, mae cyfeiriadau at ofyniad yn cynnwys cyfeiriadau at gyfyngiad.

Nodiadau:

- 1 Mewnosodwyd gan reoliad 7(4)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 2 Mewnosodwyd gan reoliad 7(4)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 3 Hepgorwyd gan reoliad 5(2)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 4 Mewnosodwyd gan reoliad 5(2)(b)(i) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 5 Mewnosodwyd gan reoliad 5(2)(b)(ii) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 6 Mewnosodwyd gan reoliad 5(2)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 7 Amnewidiwyd gan reoliad 5(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 8 Amnewidiwyd gan reoliad 5(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 9 Amnewidiwyd gan reoliad 5(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 10 Amnewidiwyd gan reoliad 5(6) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 11 Amnewidiwyd gan reoliad 5(7) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 12 Amnewidiwyd gan reoliad 5(8)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 13 Mewnosodwyd gan reoliad 5(8)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 14 Mewnosodwyd gan reoliad 5(9) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 15 Amnewidiwyd gan reoliad 2(6)(a)(i) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)

16	Mewnosodwyd gan reoliad 2(6)(a)(ii) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)
17	Mewnosodwyd gan reoliad 2(6)(a)(iii) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)
18	Amnewidiwyd gan reoliad 2(6)(b)(i) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)
19	Amnewidiwyd gan reoliad 2(6)(b)(ii) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)
20	Amnewidiwyd gan reoliad 2(6)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)
21	Hepgorwyd gan reoliad 2(5)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)
22	Amnewidiwyd gan reoliad 2(5)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)
23	Hepgorwyd gan reoliad 2(5)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)
24	Amnewidiwyd gan reoliad 2(5)(d)(ii) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)
25	Amnewidiwyd gan reoliad 2(5)(e) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)
26	Mewnosodwyd gan reoliad 2(5)(f) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)

11. Pŵer mynd i mewn

- (1) Caiff person perthnasol fynd i fangre—
 - (a) os oes gan y person perthnasol sail resymol dros amau bod gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn yn cael, wedi cael, neu ar fin cael ei dorri yn y fangre, a
 - (b) os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw'r gofyniad yn cael, wedi cael neu ar fin cael ei dorri.
- (2) Caiff person perthnasol sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—
 - (a) defnyddio grym rhesymol i fynd i'r fangre os yw'n angenrheidiol;
 - (b) cymryd unrhyw bersonau eraill, cyfarpar a deunyddiau i'r fangre y mae'r person perthnasol yn ystyried eu bod yn briodol.
- (3) Rhaid i berson perthnasol sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—
 - (a) os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o bwy yw'r person perthnasol ac amlinellu y diben yr arferir y pŵer ato;
 - (b) os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, adael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y person perthnasol iddi.

12. Troseddau a chosbau

- (1) Mae person sydd—
 - (a) heb esgus rhesymol, yn torri gofyniad yn rheoliad 4, [5\(3C\)](#),² 6, [6A](#),¹ 7, ~~8(5)~~ [8A](#), ~~8B~~⁵ ³ neu 9(4), neu

- (b) yn ~~torri'r gofyniad yn rheoliad 8(1)~~ [torri gofyniad yn rheoliad 8\(1\)](#),⁴
yn cyflawni trosedd.
- (2) Mae person sy'n rhwystro, heb esgus rhesymol, unrhyw berson rhag cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd.
- (3) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri cyfarwyddyd, neu'n methu â chydymffurfio â chyfarwyddiad neu hysbysiad gwahardd, a roddir gan berson perthnasol o dan reoliad 10 yn cyflawni trosedd.
- (4) Mae trosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w chosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy.
- (5) Mae adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(15) yn gymwys mewn perthynas â throsedd o dan y rheoliad hwn fel petai'r rhesymau yn is-adran (5) yn cynnwys—
- (a) i gynnal iechyd y cyhoedd;
- (b) i gynnal trefn gyhoeddus.
- (6) Os profir bod trosedd o dan baragraff (1) wedi ei chyflawni gan gorff corfforedig—
- (a) wedi ei chyflawni â chydysyniad neu ymoddefiad swyddog i'r corff hwnnw, neu
- (b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran y swyddog hwnnw,
- (c) mae'r swyddog (yn ogystal â'r corff corfforedig) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn, i gael achos yn ei erbyn a'i gosbi yn unol â hynny.
- (7) Ym mharagraff (6), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforedig, yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.
- (8) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'r partneriaid.
- (9) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gorff anghorfforedig ac eithrio partneriaeth gael ei dwyn yn enw'r corff yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'i aelodau ac, at ddibenion unrhyw achos o'r fath, mae unrhyw reolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r corff hwnnw yn gorff corfforedig.
- (10) Mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(16) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(17) yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth fel y maent yn gymwys i gorff corfforedig.
- (11) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o gronfeydd y bartneriaeth.
- (12) Mae dirwy a osodir ar gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o gronfeydd y gymdeithas.

Nodiadau:

- | | |
|---|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1 | Mewnosodwyd gan reoliad 7(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20) |
| 2 | Mewnosodwyd gan reoliad 6(9) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20) |
| 3 | Amnewidwyd gan reoliad 2(7)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20) |

(15) 1984 p. 60. Amnewidwyd adran 24 gan adran 110(1) o Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15)

(16) 1925 p. 86.

(17) 1980 p. 43.

4	Mewnosodwyd gan reoliad 2(7)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)
5	Hepgorwyd gan reoliad 2(6) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)

13. Hysbysïadau cosb benodedig

(1) Caiff person perthnasol ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw un y mae'r person perthnasol yn credu'n rhesymol—

- (a) ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn, a
- (b) ei fod yn 18 oed neu drosodd.

(2) Hysbysiad yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i ~~awdurdod lleol a bennir yn yr hysbysiad.~~ —

- (a) [awdurdod lleol, neu](#)
- (b) [person a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn, fel y caiff yr hysbysiad ei bennu.](#)¹

[\(2A\) Caiff Gweinidogion Cymru eu dynodi hwy eu hunain o dan baragraff \(2\)\(b\).](#)²

(3) ~~Rhaid i'r awdurdod lleol a bennir yn yr hysbysiad~~ [Pan fo awdurdod lleol wedi ei bennu yn yr hysbysiad rhaid iddo](#)³ fod yr awdurdod (neu yn ôl y digwydd, unrhyw un o'r awdurdodau) yn yr ardal yr honnir bod y drosedd wedi ei chyflawni ynddi.

(4) Pan ddyroddir hysbysiad i berson o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â throsedd—

- (a) ni chaniateir dwyn achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr hysbysiad;
- (b) ni chaniateir euogfarnu'r person o'r drosedd os yw'r person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(5) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—

- (a) rhoi manylion rhesymol fanwl am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn creu'r drosedd;
- (b) datgan y cyfnod pryd (oherwydd paragraff (4)(a)) na ddygir achos am y drosedd;
- (c) pennu swm y gosb benodedig;
- (d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo;
- (e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.

(6) Rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff 5(c) fod yn £60 (yn ddarostyngedig i baragraffau (7) ac (8)).

(7) Caiff hysbysiad cosb benodedig bennu, os telir £30 cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau yn dilyn dyddiad yr hysbysiad, mai dyna yw swm y gosb benodedig.

(8) Os yw'r person y dyroddir hysbysiad cosb benodedig iddo eisoes wedi derbyn hysbysiad cosb benodedig o dan y Rheoliadau hyn, ~~swm y gosb benodedig yw £120 [ac nid yw paragraff (7) yn gymwys]~~⁴ —

- (a) [nid yw paragraff \(7\) yn gymwys, a](#)
- (b) [rhaid i'r swm a bennir fel y gosb benodedig fod—](#)
 - (i) [yn £120 yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;](#)
 - (ii) [yn £240 yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;](#)
 - (iii) [yn £480 achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;](#)

- (iv) [yn £960 yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir;](#)
- (v) [yn £1920 yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig a dderbynnir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig olynol.](#)⁶

(9) Beth bynnag y bo unrhyw ddull arall a bennir o dan baragraff (5)(e), caniateir talu cosb benodedig drwy dalu ymlaen llaw a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) i'r person y nodir ei enw o dan baragraff (5)(d) i'r cyfeiriad a nodir.

(10) Pan fo llythyr yn cael ei anfon fel a grybwyllir ym mharagraff (9), ystyrir bod taliad wedi ei wneud ar yr adeg y byddai'r llythyr hwnnw wedi cael ei ddanfôn yn nhrefn arferol y post.

(11) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran y person sydd â chyfrifoldeb am faterion ariannol ~~yr awdurdod lleol, a~~ —

(i) [yr awdurdod lleol, neu](#)

(ii) [person a ddynodir o dan baragraff \(2\)\(b\).](#)

[a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig y mae'r achos yn ymwneud ag ef, a](#)⁵

(b) sy'n datgan bod y taliad am y gosb benodedig wedi dod i law, neu heb ddod i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

(12) Pan ddyroddir cosb benodedig mewn perthynas â'r drosedd honedig o dorri'r gofyniad yn rheoliad 9(4), mae cyfeiriadau yn y rheoliad hwn at "awdurdod lleol" i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

Nodiadau:

- 1 Amnewidiwyd gan reoliad 7(6)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 2 Mewnosodwyd gan reoliad 7(6)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 3 Amnewidiwyd gan reoliad 7(6)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 4 Mewnosodwyd gan reoliad 7(6)(d) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 5 Amnewidiwyd gan reoliad 7(6)(e) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 6 Amnewidiwyd gan reoliad 2(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (22/05/20)

14. Erlyn

Ni chaniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn ond gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu unrhyw berson sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru.

15. Dod i ben

(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y deuant i rym.

This document has been prepared by the Welsh Government to assist readers of the legislation, but is not an official version of the Statutory Instrument or the Explanatory Note

- (2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
26 Mawrth 2020

ATODLEN 1

Rheoliadau 4 a 6

Busnesau sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau [penodol](#)³ neu gau

RHAN 1

1. Bwytai, gan gynnwys bwytai ac ystafelloedd bwyta mewn gwestai neu glybiau aelodau.
2. (1) Caffis, gan gynnwys ffreuturau yn y gweithle (yn ddarostyngedig i is-baragraff (2)), ond heb gynnwys—
 - (a) caffis neu ffreuturau mewn ysbyty, cartref gofal neu ysgol;
 - (b) ffreuturau mewn carchar neu sefydliad y bwriedir ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu neu at ddibenion Adran yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am amddiffyn;
 - (c) gwasanaethau sy'n darparu bwyd neu ddioid i'r digartref.(2) Caiff ffreuturau yn y gweithle aros ar agor—
 - (a) pan na fo dewis arall ymarferol i staff yn y gweithle hwnnw i gael bwyd; a
 - (b) ~~pan y cymrir pob cam~~ [pan gymerir pob mesur](#)⁴ rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng unrhyw berson sy'n defnyddio'r ffreutur.
3. Bariau, gan gynnwys bariau mewn gwestai neu glybiau aelodau.
4. Tafarndai.

RHAN 2

5. Sinemâu.
6. Theatrau.
7. Clybiau nos.
8. Neuaddau bingo.
9. Neuaddau cyngerdd.
10. Amgueddfeydd, orielau, ~~HyfrgeHoedd~~⁸ a gwasanaethau archifau.
11. Casinos.
- ~~12. Siopau betio.~~¹¹
13. Salonau ewinedd, harddwch, gwallt a barbwyr.
14. Parlyrau tylino.
15. Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau lliw haul, tyllu'r corff, tatwio, electrolysis neu aciwbigo.
16. Canolfannau sglefrio.
17. Pyllau nofio.
18. Stiwdios ffitrwydd dan do, campfeydd, sbaon, neu ganolfannau neu gyfleusterau hamdden dan do eraill.
19. Aliau bowlïo, arcedau diddanu a manau chwarae dan do.
20. Ffeiriau plaser (boed yn yr awyr agored neu dan do).

21. Meysydd chwarae, ~~cyrtiau chwaraeon~~¹² a champfeydd awyr agored.
- ~~22. Marchnadoedd awyr agored (ac eithrio [marchnadoedd da byw a]⁵ stondinau sy'n gwerthu bwyd).~~
- ~~23. Ystafelloedd arddangos ceir.~~¹³
24. Tai arwerthiant (ac eithrio arwerthiannau da byw)⁶.
- 24A. Atyniadau o dan do i ymwelwyr.¹⁵

RHAN 3

25. Safleoedd gwyliau.
26. Safleoedd gwerysyla.
27. Gwestai a llety gwely a brecwast
28. Llety gwyliau arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hostelau a thai byrddio).

RHAN 4

29. Manwerthwyr bwyd, gan gynnwys marchnadoedd bwyd, archfarchnadoedd, siopau cyfleustra, siopau cornel a sefydliadau sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed yn oddi ar1 y fangre (gan gynnwys sefydliadau a restrir yn Rhan 1 sydd, yn rhinwedd rheoliad 4(1), wedi peidio â gwerthu bwyd a diod i'w fwyta a'i hyfed yn y fangre).
30. Siopau sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed oddi ar eu mangreodd a siopau sydd â thrwydded i werthu alcohol (yn cynnwys bragdai).
31. Fferyllfeydd (yn cynnwys fferyllfeydd nad ydynt yn darparu cyffuriau ar bresgripsiwn) a siopau cemist.
32. Siopau papurau newydd.
33. Siopau nwyddau i'r cartref, cyflenwadau adeiladu ac offer.
- 33A. Canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion.⁹
34. Gorsafoedd petrol.
35. Gwasanaethau trwsio ceir ac MOT.
36. Siopau beiciau.
37. Busnesau tacsï neu logi cerbydau.
38. Banciau, cymdeithasau adeiladu, undebau credyd, darparwyr benthyciadau tymor byr ~~a pheriannau clybiau cynilo, peiriannau arian parod ac ymgymeriadau sydd, o ran eu busnes, yn gweithredu swyddfeydd cyfnewid arian cyfred, yn trawsyrru arian (neu unrhyw gynrychiolaeth o arian) drwy unrhyw ddull neu sieciau arian parod sydd wedi eu gwneud yn daladwy i gwsmeriaid.~~⁷
39. Swyddfeydd post.
40. Trefnwyr angladdau.
41. Golchdai a siopau glanhau dillad.
42. Gwasanaethau deintyddol, optegwyr, gwasanaethau awdioleg, trin traed, ceiropractyddion, osteopathiaid a gwasanaethau meddygol neu iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.
43. Milfeddygon a siopau anifeiliaid anwes.
- ~~44. Siopau cyflenwadau amaethyddol.~~
44. Siopau cyflenwadau amaethyddol neu ddyframaethu.

44A. [Marchnadoedd neu arwerthiannau da byw.](#)²

- 45. Cyfleusterau storio a dosbarthu, gan gynnwys manau gollwng danfoniadau.
- 46. Meysydd parcio.
- 47. Toiledau cyhoeddus.
- 48. [Llyfrgelloedd.](#)¹⁰
- 49. [Asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos.](#)
- 50. [Delwriaethau ceir.](#)
- 51. [Marchnadoedd awyr agored.](#)
- 52. [Siopau betio.](#)
- 53. [Canolfannau siopa ac arcedau siopa o dan do.](#)
- 54. [Unrhyw fusnes neu fangre arall sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau i'w gwerthu neu i'w llogi mewn siop.](#)¹⁴
- 55. [Atyniadau awyr agored i ymwelwyr.](#)¹⁶

Nodiadau:

- 1 Amnewidiwyd gan reoliad 7(7)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 2 Amnewidiwyd gan reoliad 7(7)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 3 Mewnosodwyd gan reoliad 7(7)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- 4 Amnewidiwyd gan reoliad 6(10)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 5 Mewnosodwyd gan reoliad 6(10)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 6 Mewnosodwyd gan reoliad 6(10)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 7 Amnewidiwyd gan reoliad 6(10)(d) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- 8 Hefgorwyd gan reoliad 2(5)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (11/05/20)
- 9 Mewnosodwyd gan reoliad 2(5)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (11/05/20)
- 10 Mewnosodwyd gan reoliad 2(5)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (11/05/20)
- 11 Hefgorwyd gan reoliad 2(10)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- 12 Hefgorwyd gan reoliad 2(10)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- 13 Hefgorwyd gan reoliad 2(10)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- 14 Mewnosodwyd gan reoliad 2(10)(d) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)

15	Mewnosodwyd gan reoliad 2(7)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)
16	Mewnosodwyd gan reoliad 2(7)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20)

ATODLEN 2

Rheoliad 1

Cyflyrau Iechyd Isorweddol

1. Clefydau anadlu cronig (hirdymor), megis asthma, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, emffysema neu froncitis.
2. Clefyd cronig y galon, megis methiant y galon.
3. Clefyd cronig yr arenau.
4. Clefyd cronig yr afu/iau, megis hepatitis.
5. Cyflyrau niwrolegol cronig, megis clefyd Parkinson, clefyd niwronau motor, sglerosis ymledol (MS), anabledd dysgu neu barlys yr ymennydd.
6. Diabetes.
7. Problemau â'r dduwg, megis clefyd y crymangelloedd neu os yw'r dduwg wedi ei thynnu.
8. System imiwnedd wan, gan gynnwys o ganlyniad i gyflyrau megis HIV ac AIDS, neu feddyginiaethau megis tabledau steroidau neu gemotherapi.
9. Bod dros bwysau yn ddifrifol, gyda mynegai màs y corff o 40 neu uwch.

ATODIAD 1 – COPI O REOLIAD 6

Amnewidiwyd rheoliad 6 gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20). Gweler y rheoliad cyfredol yng nghorff y ddogfen. Darperir yr Atodiad er gwybodaeth yn unig, er mwyn amlinellu'r modd y diwygiwyd rheoliad 6 cyn 22 Mehefin 2020.

6. Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol eraill yn ystod cyfnod yr argyfwng

- (1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes, neu am ddarparu gwasanaeth, a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1, yn ystod cyfnod yr argyfwng—
 - (a) cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau ym mangre'r busnes (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),
 - (b) cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad yw personau ond yn cael mynediad i fangre'r busnes mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac
 - (c) cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i fangre'r busnes (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr).
 - (2) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes, nad yw wedi ei restru yn Rhan 4 o Atodlen 1, sy'n cynnig nwyddau i'w gwerthu neu i'w llogi mewn siop, yn ystod cyfnod yr argyfwng—
 - (a) peidio â chynnal y busnes hwnnw ac eithrio drwy wneud danfoniadau neu drwy ddarparu gwasanaethau fel arall mewn ymateb i archebion neu ymholiadau a geir—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar-lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys archebion [neu ymholiadau](#)² drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post;
 - (b) cau unrhyw fangre nad yw'n ofynnol i gynnal y busnes neu i ddarparu gwasanaethau fel a ganiateir gan is-baragraff (a);
 - (c) peidio â rhoi mynediad i unrhyw berson i'r fangre nad yw'n ofynnol i gynnal y busnes neu i ddarparu gwasanaethau fel a ganiateir gan is-baragraff (a).
- [\(2A\) Pan na fo mangre wedi ei chau oherwydd ei bod yn fangre sydd ei hangen er mwyn cynnal busnes fel y'i caniateir gan baragraff \(2\)\(a\), rhaid i'r person sy'n gyfrifol am gynnal y busnes, yn ystod cyfnod yr argyfwng, gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—](#)
- (a) [y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre \(ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr\),](#)
 - (b) [nad yw personau ond yn cael mynediad i'r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac](#)
 - (c) [y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre \(ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr\).](#)¹
- (3) Os yw busnes y mae paragraff (2) yn gymwys iddo (“busnes A”) yn ffurfio rhan o fusnes mwy (“busnes B”), mae'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn cydymffurfio â'r gofyniad ym mharagraff (2) os yw'n peidio â chynnal busnes A.

Nodiadau:

- | | |
|---|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1 | Mewnosodwyd gan reoliad 3(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20) |
| 2 | Mewnosodwyd gan reoliad 6(5) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20) |

ATODIAD 2 – COPI O REOLIAD 8 (CYN 1 MEHEFIN 2020)

Amnewidiwyd rheoliad 8 gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20). Gweler y rheoliad cyfredol yng nghorff y ddogfen. Darperir yr Atodiad er gwybodaeth yn unig, er mwyn amlinellu'r modd y diwygiwyd rheoliad 8 cyn 1 Mehefin 2020.

8. Cyfyngiadau ar symud a bod o dan do yn ystod cyfnod yr argyfwng

(1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff neb, heb esgus rhesymol—

- (a) gadael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'n byw [neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw](#)²;
- (b) bod o dan do gyda pherson arall nad yw—
 - (i) yn aelod o'i aelwyd,
 - (ii) yn ofalwr iddo, neu
 - (iii) yn berson y mae'n darparu gofal iddo.

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol (ond gweler paragraff (3))—

~~(a) cael cyflenwadau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1 gan gynnwys—~~

- ~~(i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini yn yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid yn yr aelwyd) neu ar gyfer personau hygylwyf;~~
- ~~(ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hygylwyf;~~

(a) [i gael cyflenwadau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1 gan gynnwys—](#)

- (i) [bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini yn yr un aelwyd \(gan gynnwys anifeiliaid yn yr aelwyd\) neu ar gyfer personau hygylwyf;](#)
- (ii) [cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad yr aelwyd, neu aelwyd person hygylwyf;](#)

[\(aa\) i gael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 38 neu 39 o Atodlen 1 neu i adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;](#)³

[\(ab\) i gasglu nwyddau sydd wedi eu prynu oddi wrth berson sy'n darparu gwasanaeth mewn ymateb i archebion neu ymholiadau yn rhinwedd yr eithriad i'r gofyniad yn rheoliad 6\(2\)\(a\) i beidio â chynnal busnes;](#)¹¹

~~(b) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 38 neu 39 o Atodlen 1 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;~~

- (b) i wneud ymarfer corff, ~~[ddim mwy nag unwaith y dydd (neu'n amlach os oes angen hyn oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd penodol)] o fewn ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw~~¹², naill ai—
- (i) ar ei ben ei hun,
 - (ii) gydag aelodau eraill o aelwyd y person, neu
 - (iii) gyda gofalwr y person;⁴
- (c) ceisio cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 42 o Atodlen 1 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (d) i ddarparu gofal neu gymorth, gan gynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, i berson hyglwyf, neu i ddarparu cymorth brys i unrhyw berson⁸;
- (e) darparu neu gael cynhorthwy brys;
- (f) rhoi gwaed;
- (g) i fynd i angladd—
- ~~(i) aelod o aelwyd y person;~~
 - ~~(ii) aelod agos o'r teulu (gan gynnwys partner, plentyn, llysbentyn neu blentyn maeth, neu riant);~~
 - ~~(iii) ffrind, os nad yw unrhyw aelod o aelwyd yr ymadawedig neu unrhyw aelod o deulu agos yr ymadawedig yn mynd, neu~~
 - ~~(iv) fel gofalwr person sy'n mynd fel person a grybwyllir yn is-baragraff (i), (ii) neu (iii);~~
 - (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd.¹
- (ga) i ymweld â mynwent, claddfa neu ardd goffa i dalu teyrnged i berson ymadawedig;⁵
- (h) i fodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (i) i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol, gan gynnwys—
- (i) gofal plant neu gyfleusterau addysgol (pan fo'r rhain yn dal i fod ar gael i ~~blentyn y person~~ blentyn y mae'r person yn rhiant mewn perthynas ag ef, neu y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto, neu ofal drosto⁶);
 - (ii) gwasanaethau cymdeithasol;
 - (iii) gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;
 - (iv) gwasanaethau a ddarperir i ddiodefwyr (megis diodefwyr trosedd neu drais domestig);
- (ia) i ddefnyddio gwasanaethau ailgylchu neu waredu gwastraff;
- (ib) i ymweld â llyfrgell;¹³
- (j) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw yn yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, i barhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (k) yn achos gweinidog yr efengyl neu arweinydd addoli, i fynd i'w fan addoli;
- (l) i symud tŷ pan ~~fo'n angenrheidiol~~ na fo modd gohirio'r symud⁷;

- (m) i osgoi anaf neu salwch neu i ddianc rhag risg o [newid niwed](#)⁹;
 - (n) ymweld â llyfrgell;
- (3) At ddibenion paragraff (1)(a), nid yw'n esgus rhesymol i berson adael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw er mwyn gwneud rhywbeth, neu aros i ffwrdd o'r ardal er mwyn gwneud rhywbeth, os byddai'n rhesymol ymarferol iddo wneud y peth hwnnw o fewn yr ardal.
- (4) Nid yw paragraff (1)(a) yn gymwys i berson sy'n gwneud ymarfer corff, pan fo'r ymarfer corff yn dechrau ac yn gorffen yn y man lle y mae'r person yn byw.(5) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson sy'n ddiartref.
- (5) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff unrhyw berson gymryd rhan mewn cynulliad mewn man cyhoeddus o fwy na dau berson ac eithrio—
- (a) pan fo'r holl bersonau yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd,
 - (b) pan fo'r cynulliad yn hanfodol at ddibenion gwaith,
 - (c) i fynd i angladd, neu
 - (d) pan fo'n angenrheidiol—
 - (i) i hwyluso symud tŷ,
 - (ii) i ddarparu gofal neu gynhorthwy i berson hyglwyf, yn cynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr “relevant personal care” ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006,
 - (iii) i ddarparu cynhorthwy brys i [unrhyw berson](#)¹⁰, neu
 - (iv) i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol, neu gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol.

Notes:

- ¹ Amnewidiwyd gan reoliad 6 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (07/04/20)
- ² Mewnosodwyd gan reoliad 4(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- ³ Amnewidiwyd gan reoliad 4(3)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- ⁴ Amnewidiwyd gan reoliad 4(3)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- ⁵ Mewnosodwyd gan reoliad 4(3)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- ⁶ Amnewidiwyd gan reoliad 4(3)(d)(i) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- ⁷ Mewnosodwyd gan reoliad 4(3)(e) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- ⁸ Mewnosodwyd gan reoliad 6(8)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- ⁹ Amnewidiwyd gan reoliad 6(8)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- ¹⁰ Mewnosodwyd gan reoliad 6(8)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (25/04/20)
- ¹¹ Mewnosodwyd gan reoliad 2(4)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (11/05/20)

12	Amnewidiwyd gan reoliad 2(4)(b) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (11/05/20)
13	Mewnosodwyd gan reoliad 2(4)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (11/05/20)

ATODIAD 3 – COPI O REOLIAD 8 (CYN 6 GORFFENNAF 2020)

Amnewidiwyd rheoliad 8 gan reoliad 2(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (06/07/20). Gweler y rheoliad cyfredol yng nghorff y ddogfen. Darperir yr Atodiad er gwybodaeth yn unig, er mwyn amlinellu'r modd y diwygiwyd rheoliad 8 cyn 6 Gorffennaf 2020.

8. Cyfyngiadau ar symud a bod o dan do yn ystod cyfnod yr argyfwng

(1) Yn ystod cyfnod yr argyfwng, ni chaiff neb, heb esgus rhesymol—

- (a) gadael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'n byw neu aros i ffwrdd o'r ardal honno;
- (b) [~~bod o dan do~~ ymgynnull mewn mangre o dan do]² gyda pherson arall nad yw—
 - (i) yn aelod o'i aelwyd,
 - (ii) yn ofalwr iddo, neu
 - (iii) yn berson y mae'n darparu gofal iddo.

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol (ond gweler paragraff (3))—

- ~~(a) cael cyflenwadau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1 gan gynnwys—~~
 - ~~(i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini yn yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid yn yr aelwyd) neu ar gyfer personau hygllwyf;~~
 - ~~(ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hygllwyf;~~
- (a) cael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1;³
- (b) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 38 neu 39 o Atodlen 1 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;
- (c) ceisio cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 42 o Atodlen 1 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (d) darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol, o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hygllwyf 2006(), lle y mae'r person sy'n derbyn y gofal yn berson hygllwyf;
- (e) darparu neu gael cynhorthwy brys;
- (f) rhoi gwaed;
- (g) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol (ond gweler hefyd reoliad 8A);
- [ga) pan fo'r person yn athletwr elit, hyfforddi neu gystadlu;]⁴
- (h) galluogi i waith gael ei wneud mewn unrhyw fangre (ond gweler hefyd reoliad 8A);

- (i) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil ~~[pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol ac na ddisgwyllir iddo wella]⁵—
 - (i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynychu, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil.~~
 - (j) mynd i angladd—
 - (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
 - (k) ymweld â mynwent, claddfa neu ardd goffa i dalu teyrnged i berson ymadawedig;
 - (l) bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
 - [(1a) pleidleisio mewn etholiad (gan gynnwys mewn etholiad a gynhelir y tu allan i Gymru), pan na fo'n rhesymol ymarferol pleidleisio drwy'r post, drwy ddirprwy neu drwy ddull tebyg arall;]⁶
 - (m) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol neu gael y gwasanaethau hynny, gan gynnwys —
 - (i) gofal plant neu wasanaethau addysgol (pan fo'r rhain yn dal i fod ar gael i blentyn y mae'r person yn rhiant mewn perthynas ag ef, neu y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto, neu ofal drosto);
 - (ii) gwasanaethau cymdeithasol;
 - (iii) gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;
 - (iv) gwasanaethau a ddarperir i ddiodefwyr (megis diodefwyr trosedd neu drais domestig);
 - (n) ymweld â llyfrgell;
 - (o) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw yn yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
 - (p) yn achos gweinidog yr efengyl neu arweinydd addoli, mynd i'w fan addoli;
 - ~~(q) [symud tŷ pan na fo modd gohirio'r symud;~~
 - (q) symud cartref;
 - (qa) paratoi eiddo preswyl i bersonau symud i mewn;
 - (qb) ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl nad yw wedi ei feddiannu—
 - (v) ymweld ag asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr neu gartrefi arddangos;
 - (vi) gweld eiddo o'r fath;⁷
 - (r) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.
- ~~(3) [At ddibenion paragraff (1)(a), nid yw'n esgus rhesymol i berson adael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw er mwyn gwneud rhywbeth, neu aros i ffwrdd o'r ardal er mwyn gwneud rhywbeth, os byddai'n rhesymol ymarferol iddo wneud y peth hwnnw o fewn yr ardal.~~
- (3) At ddibenion paragraff (1)(a), nid yw'n esgus rhesymol i berson adael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw, nac aros i ffwrdd o'r ardal honno—

- (a) [i gael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 50 i 54 o Atodlen 1;](#)
- (b) [i wneud unrhyw beth arall pe bai'n rhesymol ymarferol i'r person wneud y peth hwnnw o fewn yr ardal.](#)⁸
- (4) [Nid yw paragraff \(1\)\(a\) yn gymwys i berson sy'n gwneud ymarfer corff, pan fo'r ymarfer corff yn dechrau ac yn gorffen yn y man lle y mae'r person yn byw.](#)
- (5) [Nid yw paragraff \(1\) yn gymwys i unrhyw berson sy'n ddigartref.](#)¹
- (6) [At ddibenion paragraff \(2\)\(qb\), caiff eiddo ei drin fel pe na bai wedi ei feddiannu os nad yw unrhyw berson yn meddiannu'r eiddo fel preswylfa.](#)⁹

Nodiadau:

- ¹ Amnewidiwyd gan reoliad 2(3) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (01/06/20)
Nodyn: Er gwybodaeth mae copi o'r reoliad 8 gwreiddiol (wedi'i ddiwygio) wedi'i ddarparu yn Atodiad 2 i'r ddogfen hon.
- ² Amnewidiwyd gan reoliad 2(8)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- ³ Amnewidiwyd gan reoliad 2(8)(b)(i) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- ⁴ Mewnosodwyd gan reoliad 2(8)(b)(ii) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- ⁵ Hepgorwyd gan reoliad 2(8)(b)(iii) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- ⁶ Mewnosodwyd gan reoliad 2(8)(b)(iv) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- ⁷ Amnewidiwyd gan reoliad 2(8)(b)(v) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- ⁸ Amnewidiwyd gan reoliad 2(8)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)
- ⁹ Mewnosodwyd gan reoliad 2(8)(d) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (22/06/20)